**Ymweliadau Ysgol yn Amgueddfa Parc Treftadaeth Cwm Rhondda**

**Darllenwch yr wybodaeth isod ar gyfer prisiau, cysylltiadau i'r cwricwlwm a rhagor o wybodaeth. Os oes cwestiynau gyda chi, codwch y ffôn – 01443 682036. Byddwn ni'n hapus i drafod y trefniadau ar gyfer ymweliad eich ysgol. Mae ardal benodol ar gyfer bwyta cinio wedi'i neilltuo ar gyfer pob ysgol sy'n ymweld â ni.**

**Prisiau**

| | |
|---|---|
| **Ysgolion Rhondda Cynon Taf**<br>**Taith Dan Ddaear yng nghwmni tywysydd** | £5.35 y disgybl. Lle am ddim i 1 aelod o staff i bob 10 disgybl. |
| **Ysgolion tu allan i Rondda Cynon Taf**<br>**Taith Dan Ddaear yng nghwmni tywysydd** | £5.35 y disgybl. Lle am ddim i 1 aelod o staff i bob 10 disgybl. |

**Gweithdai**

**Yn ychwanegol i'r daith dan ddaear yng nghwmni tywysydd, rydyn ni'n cynnig gweithdai sy'n cael eu harwain gan aelod o'n carfan Addysg a Threftadaeth. Mae modd i hyd at 25 disgybl gymryd rhan ym mhob gweithdy. Mae'r gweithdai yn para 45 munud ac yn costio £50 y sesiwn.**

Mae'r gweithdai addysg a'r blychau i'w benthyg wedi'u strwythuro'n ofalus er mwyn sicrhau gwerth am arian i chi, yn enwedig pan rydych chi'n cyfuno'r gweithdai â'r daith dan ddaear. Rydyn ni'n darparu pecyn cymorth cynhwysfawr sy'n cynnwys syniadau ar gyfer y chwe maes dysgu.

**Cysylltiadau i'r cwricwlwm**

Bydd cyfle i'r disgyblion drin a thrafod creadigrwydd dynoliaeth mewn nifer o feysydd, megis hanes, gwleidyddiaeth, daearyddiaeth, cymdeithaseg, economeg a chrefydd. Yn ogystal â hynny, bydd modd ystyried effaith dechnolegol y diwydiant glo ar y byd.

| Gweithdy | Disgrifiad | Maes dysgu ac Ystod oedran |
|---|---|---|
| Bwrlwm yn y bath | Dyma weithdy rhyngweithiol lle bydd cyfle i'r disgyblion gael blas ar ddiwrnod golchi dillad yn yr oes Fictoria. Bydd y gweithdy'n cynnwys gweithgareddau traddodiadol y cartref. Mae plant wrth eu bodd yn cymryd rhan yn y golchi, gan sgrwbio dillad ar fwrdd golchi a rhoi'r dillad trwy'r gwasgwr dillad!<br>Bydd cyfle yn y gweithdy yma i restru a gwerthuso'r datblygiadau yn y byd technoleg, sy'n cael eu nodi'n bethau hanfodol yn ein bywydau cartref dyddiol. Mae'r gweithgaredd awyr agored yma'n darparu cyfleoedd dysgu dilys a phwrpasol. | Maes Dysgu:<br>Y Dyniaethau<br>Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu<br>Celfyddydau Mynegiannol<br>Mathemateg a Rhifedd<br>Iechyd a Lles<br>Gwyddoniaeth a Thechnoleg<br><br>Ystod oedran:<br>Yn addas ar gyfer pob ystod oedran, o oed meithrin.<br><br>Camau cynnydd 1, 2 a 3 (mae modd ei addasu) |
| Plentyndod: y Gorffennol, Presennol a'r Dyfodol | Yn y sesiwn yma, bydd disgyblion yn gwerthuso | Maes Dysgu:<br>Y Dyniaethau |

| | | |
|---|---|---|
| | cartrefi, gwaith, addysg a chyfleoedd chwarae yn 19eg ganrif. Yn ystod y sesiwn ryngweithiol yma, bydd y disgyblion yn dod at benderfyniadau gan wneud y mwyaf o dystiolaeth, a gwerthuso ar eu hymarfer personol. | Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu<br>Celfyddydau Mynegiannol<br>Mathemateg a Rhifedd<br>Iechyd a Lles<br>Gwyddoniaeth a Thechnoleg<br><br>Ystod oedran:<br>5 oed a hŷn (mae modd ei addasu)<br><br>Camau Cynnydd: 1 a 2 (mae modd ei addasu) |
| Taith Gerdded ar Lwybr y Dramffordd | Ewch am dro dan arweiniad ar hyd Llwybr y Dramffordd sy'n dechrau yn ein maes parcio! Mae'r daith yng nghwmni tywysydd yn mynd â'r plant ar hyd llwybr Tramffordd Dr Richard Griffiths. Cafodd y llwybr ei adeiladu er mwyn cysylltu pyllau glo Cwm Rhondda â Chamlas y Fro. Bydd y sesiwn yn darparu cyfle i'r disgyblion fod yn actif a datblygu eu dealltwriaeth o'r ffyrdd cafodd y tirlun cyfagos ei newid oherwydd y pyllau glo. Dysgwch am natur, daeareg a hanes ar hyd y ffordd! | Maes Dysgu:<br>Y Dyniaethau<br>Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu<br>Celfyddydau Mynegiannol<br>Mathemateg a Rhifedd<br>Iechyd a Lles<br>Gwyddoniaeth a Thechnoleg<br><br>Ystod oedran:<br>6 oed a hŷn (mae modd ei addasu)<br><br>Camau Cynnydd: 2 a 3 (mae modd ei addasu) |

**Blychau i'w benthyg**

Mae'r blychau yn cynnwys nifer o eitemau sy'n berthnasol i'r thema fel bod modd i'r plant archwilio. Mae modd llogi'r blychau yma i'w defnyddio nhw yn yr ystafell ddosbarth gan ddefnyddio'r taflenni gwybodaeth a syniadau.

Mae modd i unrhyw ysgol sy'n cadw lle ar gyfer y daith dan ddaear logi'r blwch Glowyr am ddim. Mae modd casglu'r blwch ar ôl eich taith a'i fynd yn ôl i'r ysgol gyda chi i barhau â'r dysgu.

Mae modd llogi pob blwch arall am £11. Mae'r pynciau'n cynnwys:

- Cwrdd â'r Rhufeiniaid
- Bywyd yn Oes y Tuduriaid
- Cartref Oes Fictoria
- Ysgol Oes Fictoria
- Teganau Oes Fictoria
- Y Rhyfel Byd Cyntaf
- Yr Ail Ryfel Byd

- Cymoedd Balch: Bywyd ac Etifeddiaeth Paul Robeson
- Y Lleisiau Angof: Hanes Menywod Cymreig

**Realiti Rhithwir – Penset 3D**

Mae'r rhain ar gael i ysgolion Rhondda Cynon Taf yn unig sydd wedi cadw lle ar gyfer y daith dan ddaear. Mae modd mynd â'r pensetiau yn ôl i'r ysgol gyda chi lle bydd modd i'r disgyblion archwilio ein buarth. Mae'r pensetiau hefyd yn cynnwys profiad mwyngloddio realiti rhithwir addysgol cyntaf y DU – Cwm Rhondda. Mae modd archwilio dros 200 metr o dwneli, talcen glo rhyngweithiol, stablau, a gwylio pum ffilm addysgiadol.

**Arddangosfa ryngweithiol ar y safle**

Ar y safle, mae modd i ymwelwyr archwilio'r arddangosfa ryngweithiol sy'n cynnwys clipiau fideo o'r gorffennol, cwisiau a phosau sy'n canolbwyntio ar hanes y diwydiant glo yng Nghwm Rhondda.

*************************************************************************************

Fersiwn digidol – Am ragor o wybodaeth a chysylltiadau i'r cwricwlwm, cliciwch yma

Er mwyn gweld fideos sy'n dangos beth mae modd i'ch disgyblion ei ddisgwyl yn rhan o'ch ymweliad, cliciwch ar y dolenni YouTube isod

Neges Cyfryngau Cymdeithasol – Ai athro ydych chi sy'n chwilio am ymweliad addysgol? Edrychwch beth sydd gyda ni i'w gynnig – ystod eang o weithdai, arddangosfeydd, a'r daith dan ddaear adnabyddus!